



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol 2019-2022



Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru ym mis Hydref 2017 er mwyn casglu a rheoli Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a wnaeth ddisodli'r Dreth Dir ar y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru ers mis Ebrill 2018. Mae'r trethi newydd hyn yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uniongyrchol.

llyw.cymru/acc

 @ACCtrydar



Cydweithio | Cadarnhau | Cywiro

Ein Dull o Weithredu



Cydweithio | Cadarnhau | Cywiro

Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi ymrwymo i helpu i gyflawni system drethi deg i Gymru. Rydym wedi bod yn gwneud hyn drwy *Ein Dull o Weithredu* – ffordd Gymreig o drethu. Drwy weithio â chynrychiolwyr, sefydliadau partner, trethdalwyr a'r cyhoedd, rydym am i'r dull hwn, sy'n cael ei weithredu mewn partneriaeth, sicrhau bod trethi'n cael eu casglu a'u rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Rydym eisiau creu'r math o system dreth sy'n deg ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru. Wrth i ni orffen ein blwyddyn gyntaf o weithrediadau, rydym yn falch o gyhoeddi ein hail gynllun corfforaethol sy'n manylu ar sut y byddwn yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru.



Ein pwrpas a'n hamcanion strategol



Ein pwrpas yw:

→ **Cynllunio a darparu gwasanaethau cyllid cenedlaethol i Gymru**

→ **Arwain y gwaith o ddefnyddio data trethdalwyr Cymru'n well er mwyn Cymru**

Byddwn yn gwneud hyn mewn modd effeithiol drwy:

Gwneud pethau'n haws

Byddwn yn ei gwneud yn haws talu'r sum cywir o dreth

Bod yn fwy effeithlon

Byddwn yn darparu mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian

Sicrhau ein bod yn deg


Byddwn yn deg ac yn gyson yn y ffordd rydym yn casglu ac yn rheoli trethi, gan weithredu'n gymesur pan nad yw pobl yn cyflawni eu rhwymedigaethau

Ehangu ein gallu

Byddwn yn datblygu ein gallu unigol a chyfunol



Ein rôl ehangach



Byddwn yn datblygu dau faes arall er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'n rôl:



Data

Byddwn yn defnyddio ein hasedau data i'r eithaf, gan gydwethio ag eraill sy'n cadw data trethdalwyr yng Nghymru i wella'r ffordd rydym yn rhannu, yn defnyddio ac yn dadansoddi'r data hynny, er budd Cymru



Dylunio

Byddwn yn defnyddio ein profiad a'n harbenigedd i gefnogi dyluniad gwasanaethau cyllid Cymru

Sut i gael mwy o wybodaeth

Gellir lawrlwytho fersiwn lawn o'n Cynllun Corfforaethol ar ein gwefan: llyw.cymru/acc